

**Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 23 Mawrth 2018 - gweler cofnodion 1 i 3, wedi'u cofnodi ar wahân.**

**Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 4 i 15.**

### **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Gayle Hudson, Sonia Reynolds (Vice Chair), Cathy Clark, David Elis-Williams, Marjorie Williams, Caroline Davies, Gerry Jenson, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Iwan Hywel, Nick Taylor, Dafydd Rhys. Roedd cworwm yn y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol), Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd), Buddug Wiliam (cynrychiolydd Unite yr undeb).

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Kaitlin Crisp, Chris Franks, June Jeremy, Guy Wallace Smith, Heather Willbourn; Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni a Chlerc).

[Fe wnaeth rhai o'r rhai hynny oedd yn mynychu ac yn bresennol - Cathy Clark, Caroline Davies, Toni Schiavone a Mark Baines - ymuno â'r cyfarfod drwy gyswllt fideo o swyddfa'r sefydliad yng Nghaerdydd.]

### **4. Cofnodion Busnes Agored y Cyngor ar 30 Ionawr 2018 a materion yn codi heb fod ar yr agenda fel arall**

Yn y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd yn y Drenewydd, awgrymwyd o dan gofnod 3 (Tri phrotocol ar gyfer aelodau'r Cyngor) **y dylid datblygu rhan sy'n cael ei ddiogelu gan gyfrinair ar wefan y sefydliad i lywodraethwyr yn unig allu ei ddefnyddio er mwyn cael gwybodaeth benodol. Cadarnhawyd hyn ac roedd angen ei gynnwys fel Cam Gweithredu ychwanegol ar yr achlysur hwn** (gweler y tabl isod). Gyda'r diwygiad hwn, cymeradwywyd cofnodion Busnes Agored y cyfarfod ar 30 Ionawr fel cofnod cywir.

Trafodwyd dau fater oedd yn codi. O dan gofnod 4, gofynnwyd p'un a fyddai'r ymweliad PAGES (corff Sicrwydd Llywodraeth Cymru) yn cael ei ddisgrifio fel un 'llwyddiannus' yn dilyn derbyn adborth gan ei gynrychiolwyr. Cadarnhaodd Kathryn Robson fod hyn yn wir oherwydd barnwyd bod yr honiadau a wnaed gan yr achwynydd/achwynwyr dienw yn ddi-sail; ac oherwydd bod rhai camau gweithredu penodol a nodwyd ar gyfer y sefydliad eisoes wedi bod ar waith ers cryn amser yn dilyn adolygiad o brosesau ansawdd, gan fod y data o dan sylw yn ymwneud â blwyddyn academiaidd 2016/17. Ar gofnod 6, **roedd dau benodiad i'r Cyngor nad oeddent wedi'u llenwi eto, yn disgwyl cylch pellach o hysbysebu agored**, tra roedd swydd barhaus Nick Taylor ar y Cyngor wedi'i unioni'n ffurfiol gan y Comisiwn Elusennau.

### **5. Crynodeb y Prif Weithredwr ar gyfer mis Mawrth 2018**

Cyflwynodd Kathryn Robson drosolwg o sefyllfa gadarnhaol o ran nifer y dysgwyr, eu canlyniadau, a phroffil ansawdd y sefydliad, gan gynnwys cadarnhau ein bod wedi derbyn parhad i'n prosiect ESOL yng Nghaerdydd (ACI) hyd at fis Gorffennaf 2019. Mewn perthynas â data cyrhaeddiad yn yr adroddiad, cydnabuwyd eu bod yn ymwneud â phartneriaethau ACL ac felly y gallai sefydliadau eraill

ddylanwadu arnynt. **Nodwyd pwysigrwydd monitro ein data ein hunain; felly, gwnaed cais am ddata sefydliadol penodol yn yr adroddiad nesaf.** Darparwyd adborth ar gais aelodau'r Cyngor ar ymweliad gweinigdogol Eluned Morgan AC i raglen llythrennedd digidol o'n heiddo yn Sir y Fflint ar 8 Mawrth 2018, lle bu i ni lwyddo i ddangos faint o fentrau polisi Llywodraeth Cymru roeddwn yn eu bodloni. Cafodd dull y Gweinigdog ei ganmol, ac roedd pawb oedd yn bresennol o'r farn ei bod hi'n ymddangos bod dealltwriaeth glir o rôl ein sefydliad.

Fe wnaeth diweddariad ar ail-drefnu staff amlinellu trefniadau ar gyfer sicrhau adolygiad manwl o gynnydd. Amlygodd Sonia Reynolds yr angen am drafodaeth allanol yn y maes hwnnw, a **chytunwyd y dylid rhoi sylw i hyn gan y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu (Marchnata gynt).**

Roedd terminoleg ranbarthol a ddefnyddiwyd yn gymhleth i rai o ran lle roedd rhanbarth (aelodau) Canol De Cymru yn ffitio ar hyn o bryd, ac awgrymwyd y dylid newid hyn i ranbarth (gweithredol) y "De-ddwyrain a Chanolbarth y De". **Cadarnhawyd y byddai adolygiad rhanbarthol ym mis Ebrill yn rhoi sylw i derminoleg fel rhan o'i broses.** Roedd trafodaeth am y Fforymau Rhanbarthol mwyaf diweddar, ac nad oedd digon o amser wedi bod i godi enwebiadau gwobrau dysgwyr yn Fforwm Canol De Cymru. Cadarnhawyd bod 28 o enwebiadau wedi cael eu derbyn, y nifer uchaf erioed ar gyfer y sefydliad. Dywedodd Cathy Clark bod pryderon wedi cael eu codi yn Fforwm y De-ddwyrain ynghylch llwyth gwaith y Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau. Fe wnaeth Mark Baines sicrhau'r Cyngor y defnyddir dull tîm i reoli'r gwaith, tra'n cydnabod nad oedd y trefniadau dros dro presennol yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Byddai recriwtio Rheolwr Darpariaeth Cwricwlwm a Chyfrwng Cymraeg, oedd eisoes yn mynd rhagddo, yn lleihau'r pwysau yn hyn o beth.

Fe wnaeth Kathryn Robson roi diweddariad ar faterion diwylliant sefydliadol, lle'r oedd staff a chynrychiolwyr yr undeb llafur wedi adrodd am newid cadarnhaol. Roedd cyfarfodydd yn cynnwys ffocws cynyddol heb unrhyw ymyrraeth, roedd systemau wedi uno, cyfathrebu yn gryfach, ac roedd staff yn gweithio gyda'r sefydliad i wella'r sefyllfa mewn meysydd â blaenoriaeth fel ei aelodaeth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Diolchodd aelodau'r Cyngor am eu rolau cefnogol oedd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth gryfhau'r elfen o ymddiriedaeth. Roedd trafodaeth ynglŷn â mecanweithiau i staff godi pryderon drwy bolisiâu a gweithdrefnau presennol y sefydliad. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod swyddog llawn amser Unite a chynrychiolydd undeb y staff yn ffurfiol ar un achlysur yr un, ac er y byddai disgwyl i'r adran rheoli ymateb i bryderon i ddechrau, roedd y potensial i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r undeb llafur yn parhau i fodoli, pe byddai materion difrifol yn ymwneud â'r tîm rheoli. Er bod cynnydd a wnaed o ran integreiddio yn cael ei ystyried yn gadarnhaol, codwyd pryder am ddiffyg llais gan Goleg Cymunedol YMCA Cymru gynt. **Cytunwyd fod hwn yn fater arall i'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu ei ystyried.**

Dywedodd Kathryn Robson y byddai telerau ac amodau gwell ar gyfer tiwtoriaid oedd yn cael eu talu fesul awr yn cael eu rhoi ar waith erbyn 1 Awst 2018. Roedd Strategaeth Sgiliau a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Profiad y Dysgwyr y bore hwnnw, gyda mwy o bwyslais ar ddarpariaeth. Trafodwyd trefniadau ar gyfer sefydlu Grŵp Cymraeg a Dwyieithog - estyniad ar y gweithgor presennol oedd yn canolbwyntio ar Safonau'r Iaith Gymraeg.

Hysbyswyd aelodau'r Cyngor am gyfarfod 'adolygiad sefydliadol' oedd i'w gynnal gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar 11 Ebrill, oedd yn nodi dull newydd o adolygu perfformiad sefydliadau addysg bellach. Byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion yn bresennol, a byddai adborth yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Fe wnaeth rhai aelodau o'r Cyngor fynegi eu bod yn dymuno ymweld â dysgwyr oedd yn ymgymryd â chwrs, pe byddai cyfleoedd priodol yn codi. Croesawyd hyn, a chyfeiriwyd aelodau'r Cyngor i gysylltu â Mark Baines i ddechrau i drefnu ymweliadau dysgwyr o'r fath.

Yn olaf, cydnabuwyd gwerth adroddiad y Prif Weithredwr, yn enwedig fel offer ar gyfer dangos cynnydd mewn dysgu ac addysgu. **Awgrymodd Toni Schiavone y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r materion allweddol oedd angen eu symud yn eu blaenau yn cael eu crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad.**

## **6. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2018**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 13 Mawrth 2018. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, **fe wnaeth Mark Baines argymhell yn ffurfiol ar ran y Pwyllgor y dylai'r Cyngor ail-benodi BTP Associates fel ein harchwilwyr allanol am gyfnod o 5 mlynedd. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad hwn, a byddai'n mynd ymlaen i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol mis Ebrill i'w gadarnhau.**

## **7. Cofrestr Risg ar gyfer Mawrth 2018**

Nododd Mark Baines y cyflwyniad newydd oedd yn golygu bod newidiadau ers y Gofrestr flaenorol yn cael eu nodi yn y golofn risg net, gan adlewyrchu (er enghraifft) y newidiadau yn y dirwedd allanol neu reolaethau gwell/wedi'u gwanhau. **Cytunwyd y dylid ychwanegu'r strwythur uwch dîm rheoli newydd (SMT) fel pwynt ychwanegol ar y Gofrestr,** gan gyfeirio at yr amserlen adolygu y cytunwyd arni, mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y mater hwn mewn Fforymau Rhanbarthol ac mewn manau eraill.

Awgrymwyd y gallai fod angen cynyddu'r sgôr risg ar gyfer Harlech o ran ei debygolrwydd a chanlyniadau, yn dilyn trafodaeth yn ymwneud â Harlech yn ddiweddarach yn yr agenda. Fe wnaeth David Elis-Williams gwestiynu'r cynnydd yn y sgôr risg mewn perthynas â chynllunio ariannol; esboniwyd bod y risg wedi'i dan-ddatgan yn flaenorol, er nad oedd unrhyw beth materol wedi newid arno. Cadarnhaodd Mark Baines y cynlluniau gweithredol ar gyfer llai o gyllid yn gysylltiedig â Cymunedau'n Gyntaf, ynghyd â cholli cyllid Ewropeaidd o ganlyniad i Brexit. **Byddai papur yn amlinellu goblygiadau'r colledion hyn, a mesurau posibl ar gyfer pontio'r bwlch cyllid, yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.**

## **8. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018**

Siaradodd David Elis-Williams ar yr adroddiad ysgrifenedig cryno o'r cyfarfod, oedd wedi canolbwyntio mwy ar faterion staffio ar yr achlysur hwn nag o'r blaen, gan gynnwys adolygu amserlen polisiâu Adnoddau Dynol. Amlygodd y Cadeirydd yr angen i weithio gyda Colegau Cymru ynghylch adolygiadau cyflog posibl yn y dyfodol, o ystyried ei ragfynegiad o ymchwydd pwysau i gynyddu cyflogau.

## **9. Diweddariad ar safle Coleg Harlech**

Rhoddyd y newyddion diweddaraf ar symud lleoliad y campws a datblygiadau cysylltiedig eraill. Er bod y ddadl ar ddyfodol y safle wedi bod yn mynd ymlaen ers blyneddoddedd, nid oedd unrhyw rai o'r partion cysylltiedig yn meddu ar y capasiti na'r arian i ddatrys y sefyllfa'n llawn ar eu pen eu hunain. Cydnabu aelodau'r Cyngor eu cyfrifoldebau moesol ac ariannol ac amlygu'r angen i wneud penderfyniadau cadarn ar y mater, o ystyried y gallai'r arian oedd yn cael ei wario ar Harlech ar hyn o

bryd yn unswydd i gynnal y safle ac i amddiffyn gwerth yr ased gael ei ddefnyddio'n fwy priodol ar gyfer dysgu. Dywedodd Kathryn Robson bod canlyniad cadarnhaol i ddysgwyr Harlech, serch hynny, oedd wedi cael eu hail-leoli i Blas Tan y Bwlch ym Maentwrog ac wedi ymgartrefu'n dda.

Roedd y Cyngor wedi awdurdodi trafodaethau rhwng y sefydliad a Theatr Ardudwy yn flaenorol mewn perthynas â therfynu'r brydles. Dywedodd David Elis-Williams bod y trafodaethau hynny wedi symud ymlaen, ond byddai'n rhaid i'r sefydliad dalu ffigur setlo a allai fod yn ddegau o filoedd o bunnoedd, o ystyried bod cais dilys gan Theatr Ardudwy wedi'i sefydlu. Roedd dyfodol y llyfrgell yn parhau i fod yn broblem, a byddai cyngor cyfreithiol pellach ynghylch symud ei gynnwys yn cael ei gymryd. Efallai y byddai angen sefydlu gweithgor gyda chylch gwaith penodol i'r llyfrgell.

Yn dilyn trafodaeth fanwl o'r materion cysylltiedig, cytunodd y Cyngor ar gamau gweithredu i'r SMT eu rhoi ar waith, ar yr amod nad oedd llywodraethwyr yn barod i dderbyn effaith negyddol ar ddarpariaeth dysgu oedolion ar draul cynnal adeilad gwag nad oedd yn cael ei ddefnyddio bellach i hwyluso addysg a hyfforddiant oedolion. **Cytunwyd ar gamau gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid lleihau costau cynnal a chadw a diogelwch y safle i'r lefel isaf oedd yn ofynnol i wneud y safle yn ddiogel a diogelu gwerth yr ased cyn belled â phosibl;**
- **Dylid rhoi blaenoriaeth i ddyfodol y llyfrgell, gan geisio cyngor cyfreithiol pellach mewn perthynas â'i symud, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion i gyfarfod nesaf y Cyngor;**
- **Dylid comisiynu arfarniad opsiynau gan syrfewyr priodol ynghylch cael gwared ar y safle.**

Roedd angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o effeithiau posibl cael gwared ar y safle, yn lleol ac yn genedlaethol. **Cytunwyd hefyd y dylid hysbysu Llywodraeth Cymru am y penderfyniad posibl hwnnw yn gynnar.**

#### **10. Fersiwn derfynol y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Gorffennaf 2017**

Gwnaed dau sylw gan Toni Schiavone, fel a ganlyn:

- O dan bwynt 3.1 (hylifedd tymor byr), lle nad oedd yr amcan ariannol sefydliadol ar gyfer y flwyddyn wedi'i fodloni, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys esboniad cryno o pam;
- Roedd y seilwaith Technoleg Gwybodaeth (4.3) yn parhau i fod yn faes posibl o risg uchel ar gyfer y sefydliad, ac roedd angen mwy o gyfleoedd i lywodraethwyr i roi sylw i hyn.

**Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor, i fynd ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol i'w cadarnhau.**

#### **11. Cyfrifon rheoli ar gyfer y 6 mis hyd at ddiwedd Ionawr 2018**

Cyflwynwyd y cyfrifon gyda rhai prif bwyntiau, sef:

- Cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth 6-mis, ac ni nodwyd unrhyw faterion o bryder;
- Yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd y rhagwelir diffyg o £138,000. Fodd bynnag, oherwydd incwm grant arall a dderbyniwyd a chyllidebu synhwyrol, roedd gwaged bach bellach yn cael ei ragweld, nes yr oeddwn ar y trywydd iawn i weithredu gwaged o 0.5% yn ôl y bwriad.

Roedd aelodau'r Cyngor yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran ein sefyllfa ariannol.

## 12. Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr y bore hwnnw ar 23 Mawrth 2018

Adroddodd Gerry Jenson am yr eitemau allweddol canlynol o agenda'r bore hwnnw:

- Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo hunanasesiad a phroses datblygu ansawdd diwygiedig ar gyfer 2018-19;
- Yn y pen draw, byddai llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) oedd yn dod i rym yn 2020. Byddai hyfforddiant arno'n cael ei ddarparu maes o law;

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi trafod yr angen i sicrhau craffu effeithiol ar waith y Pwyllgorau, yn enwedig o ystyried strwythur diwygiedig y Pwyllgorau. Cytunwyd roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn chwarae rôl allweddol o ran monitro effeithiolrwydd o'r fath, a nodwyd pwysigrwydd ymgysylltu'n weithredol gyda'r Gofrestr Risg fel un agwedd ar hynny.

## 13. Cynigion a diwygiadau a dderbyniwyd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Neuadd y Dref Castell-nedd ar 14 Ebrill 2018

**Cytunwyd y byddai ymatebion ar gyfer pob cynnig yn cael eu paratoi, ac y byddai Stephen Thomas yn trefnu siaradwyr priodol ar gyfer pob cynnig ymlaen llawn.**

Cynnig 1: Cadarnhaodd Kathryn Robson y byddai'n paratoi ymateb cadarnhaol i'r cynnig hwn.

Cynnig 2: Cytunwyd y byddai angen i'r sefydliad ganolbwyntio ar faterion cynaliadwyedd yn ehangach na'r ffordd hynny a amlinellwyd yng ngeiriad y cynnig; byddai hyn yn cael sylw drwy ddatblygu strategaeth amgylcheddol. O ran y cynnig ei hun, byddai Rheolwyr Rhanbarthol yn cynnwys llygredd plastig yn yr elfen ESDGC (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang) o ddarpariaeth y cwricwlwm.

Cynnig 3: Roedd cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn o weithio cydweithredol, y gellid adrodd amdano yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. (Gwnaed sylw bod angen i ni adolygu'r protocolau'n amlinellu sut y dylid cyflwyno cynigion, o ystyried hyd a maint y manylion ar gyfer y cynnig penodol hwn gan David Smith.)

Cynnig 4: Nodwyd Sonia Reynolds i siarad mewn ymateb i'r cynnig hwn.

Cynnig 5: Cydnabuwyd y tebygrwydd rhwng hwn a'r cynnig blaenorol, a gofynnwyd i Stephen Thomas ystyried y posibilrwydd o'u cyfuno'n un cynnig oedd yn gorgyffwrdd (ynghyd â'r gwelliant canlynol, a gyflwynwyd gan Fforwm Rhanbarthol y Gogledd Ddwyrain mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau):

“Dylid ystyried cynnig aelodaeth am ddim ar gyfer dysgwyr.”

Cynnig.: Nick Taylor; Eil.: Nigel Davies neu Michelle Kerswell - i'w gadarnhau;  
Cefnogwyd gan Fforwm Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru

Cynnig 6: Dywedodd Kathryn Robson y byddai gwrthwynebiad i'r cynnig hwn am y rhesymau canlynol:

- Roedd y mater eisoes wedi bod yn destun trafodaeth helaeth yn y Cyngor, ac roedd penderfyniad wedi'i wneud yn dilyn hyn;

- Cytunwyd y byddai strwythur yr uwch dîm rheoli yn cael ei adolygu o fewn 12 mis o'i roi ar waith;
- Roedd swydd y Rheolwr Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg wedi'i hysbysebu eisoes.

Cytunwyd y dylai Gerry Jenson a Kathryn Robson siarad mewn ymateb i'r cynnig hwn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a dylid cyflwyno'r pwyntiau oedd yn cefnogi'r sefyllfa gyfredol oedd wedi'u codi o'r blaen wrth ei drafod.

Gwnaed sylw gan Caroline Davies y gellid cymryd cryn amser yn trafod y cynigion hyn, a bod angen i ni sicrhau nad oedd y siaradwyr yn cymryd mwy o amser na'r hyn a roddir iddynt.

#### 14. Adborth ar y cyfarfod a hunanasesiad perfformiad

Cydnabuwyd heriau cyfieithu ar y pryd dros gynhadledd fideo, ond roedd y cyfle am gynhadledd fideo yn cael ei groesawu'n fawr gan aelodau'r Cyngor. Byddai angen ail-ystyried sut roedd yr ystafell ym Mangor yn cael ei gosod ar gyfer cyfarfodydd oedd yn cynnwys fideo yn y dyfodol.

Roedd y cyflwyniad ar 'Prevent' wedi'i ruthro braidd, a gallai fod wedi cael ei deilwra i adlewyrchu cyfrifoldebau llywodraethwyr yn y maes hwn yn agosach. Croesawyd presenoldeb Buddug Wiliam fel cynrychiolydd Unite.

**Cytunwyd y dylid darparu crynodeb o faterion a drafodwyd yn y Cyngor i staff ac aelodau ar ffurf briff bob dau fis gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, er mwyn gwella cysylltiadau cyfathrebu.**

#### 15. Dyddiadau wedi'u cadarnhau yn y dyfodol ar gyfer y dyddiadur

Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol: 11 am Dydd Sadwrn 14 Ebrill: Neuadd y Dref Castell-nedd

Y Cyngor: 12.30 pm dydd Llun 21 Mai: Iard y Cowper, Caerdydd

Diwedd mis Gorffennaf: Cyffordd Llandudno neu Blas Tan y Bwlch (dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau)

#### CAMAU GWEITHREDU

(DS: Fformat y tabl wedi'i ddiwygio i gynnwys colofn "Camau gweithredu erbyn pryd".)

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Cam gweithredu gan bwy	Cam gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Cofnodion Busnes Agored y Cyngor ar 30 Ionawr 2018 a materion yn codi	Datblygu rhan o wefan y sefydliad i'w ddiogelu gan gyfrinair ar gyfer llywodraethwyr, er mwyn cael mynediad at wybodaeth benodol.	ST / Rhydian Williams	Medi 2018
Cofnod 4	Penodi aelodau'r Cyngor	Rownd arall o hysbysebu agored i ddod o hyd i 2 o lywodraethwyr eraill.	ST	Mai 2018

Cofnod 5	Crynodeb y Prif Weithredwr ar gyfer mis Mawrth 2018	Nodwyd pwysigrwydd monitro ein data ein hunain; felly, gwnaed cais am ddata sefydliadol penodol yn yr adroddiad nesaf.	MB	Mai 2018
		Y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu i roi sylw i adolygiad ar gynnydd yr ad-drefnu diweddar.	CH / SR	I'w drafod yng nghyfarfod y Grŵp ar 18 Ebrill 2018
		Byddai'r adolygiad rhanbarthol ym mis Ebrill yn rhoi sylw i faterion terminoleg fel rhan o'i broses.	MB / SMT	Ebrill / Mai 2018
		Nodwyd diffyg llais cyn-Goleg Cymunedol YMCA Cymru fel mater arall i'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu ei ystyried.	CH / SR	I'w drafod yn y cyfarfod ar 18 Ebrill 2018
		Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r materion allweddol oedd angen eu symud yn eu blaenau yn cael eu crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad.	KR	Mai 2018
Cofnod 6	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2018	Cafodd yr argymhellid y dylai archwilywyr allanol BTP Associates gael eu hail-benodi am gyfnod o 5 mlynedd ei gymeradwyo gan y Cyngor, i fynd ymlaen i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ebrill i'w gadarnhau.	ST / Chris Franks	Ebrill 2018
Cofnod 7	Cofrestr Risg ar gyfer Mawrth 2018	Cytunwyd bod angen ychwanegu strwythur newydd yr SMT at y Gofrestr Risg.	MB / SMT	Mai 2018
		Dylid cynnwys papur yn amlinellu goblygiadau lleihau cyllid Cymunedau'n Gyntaf, ynghyd â cholli cyllid Ewropeaidd o ganlyniad i Brexit, a mesurau posibl ar gyfer pontio'r bwloch cyllid, ar agenda cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.	MB / SMT	Gorffennaf 2018
Cofnod 9	Diweddariad ar Goleg Harlech	Dylid lleihau costau cynnal a chadw a diogelwch y safle i'r lefel isaf oedd yn ofynnol i wneud y safle yn ddiogel a diogelu gwerth yr ased cyn belled â phosibl.	KR / MB	Mai 2018

		<p>Dylid rhoi blaenoriaeth i ddyfodol y llyfrgell, gan geisio cyngor cyfreithiol pellach mewn perthynas â'i symud, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion i gyfarfod nesaf y Cyngor.</p> <p>Dylid comisiynu arfarniad opsiynau gan syrfewyr priodol ynghylch cael gwared ar y safle.</p> <p>Cytunwyd hefyd y dylid hysbysu Llywodraeth Cymru am y penderfyniad posibl hwnnw i gael gwared ar y safle yn gynnar.</p>	<p>KR / MB</p> <p>KR / MB</p> <p>KR</p>	<p>Mai 2018</p> <p>Gorffennaf 2018</p> <p>Ebrill 2018</p>
Cofnod 10	Fersiwn derfynol Datganiadau Ariannol 2016-17 ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Gorffennaf 2017	Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor, i fynd ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gadarnhau.	MB / ST	Mai 2018
Cofnod 13	Cynigion a diwygiadau a dderbyniwyd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Neuadd y Dref Castell-nedd ar 14 Ebrill	Cytunwyd y byddai ymatebion ar gyfer pob cynnig yn cael eu paratoi, ac y byddai ST yn trefnu siaradwyr priodol ar gyfer pob cynnig ymlaen llawn.	ST	Ebrill 2018
Cofnod 14	Adborth ar y cyfarfod a hunanasesiad perfformiad	Cytunwyd y dylid darparu crynodeb o faterion a drafodwyd yn y Cyngor i staff ac aelodau ar ffurf briff bob dau fis gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, er mwyn gwella cysylltiadau cyfathrebu.	CH / SMT	Mai 2018